Gweiddi

## Tasg 2

# Tref wahanol

Hen dref yn Ne Awstralia yw Coober Pedy




Mae'n dref enwog oherwydd yn 1915, ffeindiodd bachgen ifanc, 14 oed, o'r enw William Hutchinson, opal, carreg werthfawr, yn yr ardal. Yna, dechreuodd llu o bobl ddod i'r ardal i chwilio am y cerrig gwerthfawr hyn. Erbyn heddiw, does neb yn cael cloddio am opalau, er bod rhai twristiaid yn dal i chwilio ar y ddaear.

Mae'r dref yn enwog am reswm arall heddiw. Gan ei bod hi mor boeth yma yn ystod yr haf – rhwng 35o C a 50o C – mae tua 3 500 o'r bobl yn byw mewn cartrefi "o dan y ddaear" neu gartrefi sydd wedi eu cloddio i mewn i fryniau yn yr ardal. Maen nhw'n defnyddio driliau mawr i dwnelu i mewn i'r graig i greu ystafelloedd byw, ystafelloedd gwely, ceginau ac ati – fel rydych chi'n gallu gweld yn y sleidiau.

Maen nhw'n cael awyr iach drwy fentiau arbennig ar wyneb y ddaear ac mae rhai pobl wedi creu gerddi wrth y drws ffrynt hyd yn oed!

Yn ogystal â'r cartrefi hyn, mae'r bobl wedi creu gwestai, siopau, amgueddfeydd, bariau ac eglwys o dan y ddaear. Ewch i chwilio am luniau ar y we.

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| gwerthfawr | yn werth llawer o arian | valuable |
| llu | llawer iawn | many |
| cloddio | gwneud twll i mewn i'r graig neu'r ddaear (efallai i chwilio am gerrig gwerthfawr, glo ac ati) | to mine |
| twnelu | gwneud twnnel | to tunnel |
| fentiau | lluosog fent – twll gyda simnai fach sy'n gadael awyr iach i mewn | vents |
| amgueddfeydd | lluosog **amgueddfa** - lle mae casgliad o wrthrychau, fel lluniau, llyfrau, arteffactau, ar thema arbennig fel arfer | museums |

1. Meddyliwch am 5 ansoddair da i ddisgrifio Coober Pedy ac ysgrifennwch frawddegau sy'n cynnwys yr ansoddeiriau hyn.

Cofiwch!

Mae ansoddeiriau sy'n dechrau gyda **t, c, p, d, g, b, m** yn treiglo'n feddal ar ôl **yn** neu **'n**:

Mae Cooper Pedy'n **dd**iddorol tu hwnt.

ond

Mae Cooper Pedy'n **rh**yfeddol.

2. Hoffech chi fyw yn Coober Pedy? Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Rydych chi'n gweithio i Fwrdd Croeso Awstralia a rhaid i chi wneud taflen i berswadio pobl i ymweld â'r dref.

Ar y daflen, rhaid i chi:

- ysgrifennu tipyn o hanes y dref
- egluro beth sydd yno heddiw
- cynnwys map a lluniau.

Hefyd, rhaid i chi berswadio twristiaid i ddod, felly, rhaid i chi ddefnyddio:

ansoddeiriau da, e.e.

**anhygoel**

**rhyfeddol**

cwestiynau, e.e.

**Ydych chi'n ...?**

**Ydych chi erioed wedi ...?**

**Beth am ...?**

**Hoffech chi ...**

gorchmynion, e.e.

**Dewch i ...**

**Peidiwch â phoeni am ...**

Ymadroddion cadarnhaol, e.e.

**heb os nac oni bai**

**Byddwch chi'n siŵr o ...**

**yn bendant**

**does dim dwywaith**